

# Cymraeg i oedolion

## Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo darparwyr Cymraeg i oedolion i wella medrau siarad dysgwyr

Pa mor dda ydych chi'n cynorthwyo dysgwyr i wella eu medrau siarad?

- Sut ydych chi'n sicrhau bod dysgwyr, yn enwedig ar y lefelau is, yn cynyddu eu defnydd o'r iaith darged gyda chi a'u cyd ddysgwyr, yn hytrach na throi'n ôl at y Saesneg?
- Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio i sicrhau bod dysgwyr yn ymestyn eu hatebion llafar yn ystod y dosbarth ac wrth weithio mewn grwpiau/parau?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio'r iaith yn gynyddol gywir a naturiol mewn modd cefnogol sy'n ychwanegu at eu hyder i ddefnyddio'r iaith?
- Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio i sicrhau ynganiad cywir?
- Sut ydych chi'n annog ac yn monitro defnydd dysgwyr o'r Gymraeg y tu allan i sesiynau ffurfiol fel eu bod yn dod yn siaradwyr Cymraeg gweithredol sy'n integreiddio'n effeithiol â rhwydweithiau/cymunedau Cymraeg?
- Mewn gwersi, a ydych yn rhoi digon o amser i ddysgwyr feddwl er mwyn ymateb i sbardunau llafar?
- Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol ydych chi'n eu cynnig i helpu staff i ddatblygu eu medrau o ran cefnogi medrau siarad dysgwyr?